# Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494 (QUEENSFERRY, SIR Y FFLINT) (GWAHARDD CERDDWYR) 201-

MAE GWEINIDOGION CYMRU yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 1 a 2 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd cerddwyr rhag mynd ar hyd y darnau o gefnffordd yr A494 yn Queensferry yn Sir y Fflint fel y'u pennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 11 Mawrth 2016 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, plan a Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn, yn ystod oriau swyddfa arferol yn Llyfrgell Queensferry, Campws Queensferry, Queensferry, Sir y Fflint CH5 1SE neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim oddi wrth y cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1222201.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau yn ysgrifenedig, gan nodi ar ba sail y'u gwneir a dyfynnu'r cyfeirnod qA1222201, i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ erbyn 1 Ebrill 2016. Os ydych am wrthwynebu, cefnogi neu gynnig sylwadau, efallai y bydd arnom angen ymgynghori â phobl a chyrff y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ein galluogi i ymdrin â'r materion yr ydych wedi eu dwyn i'n sylw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn drafft a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Deddfwriaeth Ddrafft/ Offerynnau Statudol Lleol Drafft/ Gorchmynion Traffig Parhaol).

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru.

### YR ATODLEN

Y darn hwnnw o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A494 Cyfnewidfa Queensferry a'r droetffordd o'i chyffordd â'r A550 Cylchfan Queensferry i'r man lle y mae'n uno â phrif gerbytffordd tua'r dwyrain Cefnffordd yr A494.

Y darn hwnnw o brif gerbytffordd tua'r dwyrain Cefnffordd yr A494 a'r droetffordd sy'n ymestyn o'r man lle y mae'n uno â ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A494 Cyfnewidfa Queensferry hyd at bwynt 321 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Pont Reilffordd Queensferry (yn y man lle y mae'n gwyro oddi ar yr hawl dramwy gyhoeddus).

# A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

## THE A494 TRUNK ROAD (QUEENSFERRY, FLINTSHIRE) (PROHIBITION OF PEDESTRIANS) ORDER 201-

THE WELSH MINISTERS propose to make an Order in exercise of their powers under sections 1 and 2 of the Road Traffic Regulation Act 1984. The effect of the Order will be to prohibit pedestrians along lengths of the A494 trunk road at Queensferry in the County of Flintshire as specified in the Schedule to this Notice.

During a period of 21 days from 11 March 2016 a copy of the proposed Order, a plan and a Statement of Reasons for making the Order may be inspected during normal office hours at Queensferry Library, Queensferry Campus, Queensferry, Flintshire CH5 1SE or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1222201.

Objections, specifying the grounds on which they are made and quoting reference qA1222201, must be made in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ by 1 April 2016. Should you wish to object, support or make representations, we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of the process of consulting with others we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will however only disclose your personal details where it is necessary to do so to enable us to deal with issues you have brought to our attention.

A copy of the draft Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Draft Legislation/ Draft Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders).

**M D BURNELL**
Transport, Welsh Government

### SCHEDULE

That length of the A494 Queensferry Interchange eastbound entry slip road and footway from its junction with the A550 Queensferry Roundabout to where it merges with the main eastbound carriageway of the A494 Trunk Road.

That length of the A494 Trunk Road main eastbound carriageway and footway that extends from where it merges with the A494 Queensferry Interchange eastbound entry slip road to a point 321 metres north east of the centre point of the Queensferry Rail Bridge (at the divergence of the public right of way).

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru
www.gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE